# Dyddiadau tymor ysgol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymgynghoriad pobl ifanc ynglŷn â’r cynlluniau i newid sut mae dyddiadau tymor ysgol yn cael eu gosod ar gyfer ysgolion yng Nghymru.



# Cyflwyniad

Mae rhai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd pan mae dyddiadau tymor ysgol a gwyliau ar wahanol amseroedd. Mae Llywodraeth Cymru eisiau dod o hyd i ffyrdd i helpu.

## Pam?

Gall dyddiadau tymor fod yn wahanol rhwng awdurdodau lleol. Gallan nhw hefyd fod yn wahanol i ysgolion yn yr un ardal.

Rydyn ni eisiau cael gwybod beth yw'ch barn chi ar ein cynlluniau, fel nad ydyn ni'n methu unrhyw beth pwysig.




## Be' sy'n digwydd nawr

Mae yna wahanol fathau o ysgolion ar draws awdurdodau lleol.
Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn gosod dyddiadau tymor ar gyfer:

- ysgolion cymunedol
- ysgolion arbennig cymunedol
- ysgolion gwirfoddol a reolir
- ysgolion meithrin.

Mae gan ysgolion eraill gyrff llywodraethu sy'n gosod eu dyddiadau tymor eu hunain.

Weithiau, mae'r dyddiadau yma yr un fath, ond nid yw'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu gydweithio i wneud yn siŵr eu bod nhw'r un fath. Hefyd, nid yw'r grym gan Weinidogion Cymru i wneud iddyn nhw gydweithio.

## Pam mae angen i bethau newid?

Rydyn ni wedi derbyn llawer o lythyrau oddi wrth deuluoedd yn dweud wrthon ni am y problemau y maen nhw'n eu hwynebu oherwydd bod gan eu plant wahanol ddyddiadau tymor.

Un broblem fawr yw'r dyddiadau tymor gwahanol ar gyfer gwyliau'r Pasg.

**Er enghraifft:**
Mae'r wythnosau y mae rhai ysgolion ffydd yn eu cymryd i ffwrdd ar gyfer y Pasg yn wahanol i ysgolion awdurdod lleol, ac felly hefyd rhai ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd, sy'n golygu bod angen gofal plant ychwanegol ar rai teuluoedd.

# Yr hyn rydyn ni eisiau ei newid

**Ar hyn o bryd, nid yw'r gyfraith:**

- **yn gwneud i bawb gydweithio i wneud yn siŵr bod y ddyddiadau tymor i gyd yr un fath; nac**
- **yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd neu reoli gosod dyddiadau tymor.**




## 5 peth rydyn ni eisiau eu newid:

### Ein cynnig 1af:

Rydyn ni eisiau i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu fod â chyfrifoldeb cyfreithiol i gydweithio.

### Ein 2il gynnig:

Rydyn ni eisiau i Weinidogion Cymru gael y gallu i ymyrryd a gosod dyddiadau tymor ysgol os ydyn nhw o'r farn bod angen iddyn nhw wneud hynny. 'Pŵer cyfarwyddo' fyddai'r enw ar hyn.

### Ein 3ydd cynnig:

Rydyn ni eisiau i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ddangos eu bod nhw wedi cytuno ar ddyddiadau tymor.

Rydyn ni'n meddwl y gallen nhw wneud hyn trwy anfon llythyr wedi'i lofnodi (3 mlynedd ymlaen llaw) at Lywodraeth Cymru'n dangos beth y maen nhw wedi cytuno arno.

Bydd hyn yn rhoi digon o amser i Weinidogion Cymru feddwl am ddefnyddio'u 'pŵer cyfarwyddo' os nad yw'r dyddiadau tymor yr un fath neu os oes yna broblemau eraill.

Er enghraifft, os yw Pasg yn gynnar yn y flwyddyn, yna efallai y bydd Gweinidogion Cymru eisiau i wyliau'r Pasg fod yn ystod y pythefnos sy'n dilyn Dydd Gwener y Groglith er mwyn gallu osgoi tymor haf hir.

Efallai fod yna resymau da pam mae angen i awdurdod lleol neu ardal fod â dyddiadau tymor gwahanol. Rydyn ni eisiau i Weinidogion Cymru allu defnyddio'u 'pŵer cyfarwyddo' ar yr adegau hynny.

Er enghraifft, digwyddiadau fel Cwpan Ryder.

## Ein 4ydd cynnig:

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr mai nid dim ond pan nad oes modd cytuno ar ddyddiadau tymor y ceir defnyddio'r 'pŵer cyfarwyddo', ond ei fod hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud yn siŵr bod gwahanol ddyddiadau tymor yn cael eu gosod ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion neu wahanol ardaloedd lleol lle bo angen hynny.

## Ein 5ed cynnig:

Rydyn ni o'r farn ei bod hi'n hynod bwysig gwrando ar deuluoedd ac ysgolion cyn defnyddio ein 'pŵer cyfarwyddo'.

Rydyn ni eisiau i Weinidogion Cymru gael y grym i lunio rheoliadau i bennu sut i fynd ati i ymgynghori ynglŷn â sut maen nhw'n defnyddio'u 'pŵer cyfarwyddo'. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i bawb gael dweud eu dweud cyn gosod dyddiadau tymor.




# Casgliad:

Rydyn ni o'r farn y bydd y newidiadau yma'n helpu teuluoedd ac yn golygu y bydd dyddiadau tymor ysgol a gwyliau i gyd yn digwydd ar yr un pryd.

**Diolch am ddarllen y llyfryn yma**

A fyddech chi cystal ag ateb y cwestiynau isod a'u hanfon i:

**SMED2@cymru.gsi.gov.uk**
neu
**Y Gangen Llywodraethu a Thrafnidiaeth Ysgolion**
**Yr Adran Addysg a Sgiliau**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Cathays**
**Caerdydd**
**CF10 3NQ**

Ffôn: **029 2082 3978**

erbyn 26 Tachwedd 2012.

# Cwestiynau:

**1. Ynglŷn â'n cynnig 1af**

Ydych chi o'r farn y dylai awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu fod yn gyfrifol am gydweithio wrth osod dyddiadau tymor?

✓ Ydw ✗ Nac ydw ? Ddim yn gwybod

Oes yna unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud?

**2. Ynglŷn â'n 2il gynnig**

Ydych chi o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru allu ymyrryd a defnyddio 'pŵer i gyfarwyddo' awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ynglŷn â dyddiadau tymor ysgol os ydyn nhw o'r farn bod angen iddyn nhw wneud hynny?

✓ Ydw ✗ Nac ydw ? Ddim yn gwybod

Oes yna unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud?



## 3. Ynglŷn â'n 3ydd cynnig

Ydych chi o'r farn y dylai awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu orfod dangos eu bod nhw wedi cytuno ar ddyddiadau tymor?

✓ Ydw   ✗ Nac ydw   ? Ddim yn gwybod

Oes yna unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud?

## 4. Ynglŷn â'n 3ydd cynnig

Pe bai awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu'n anfon llythyr wedi'i lofnodi i ddangos i ni eu bod nhw wedi cytuno ar ddyddiadau tymor, ydych chi o'r farn y byddai hyn yn gweithio?

✓ Ydw   ✗ Nac ydw   ? Ddim yn gwybod

Oes yna unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud?






### 5. Ynglŷn â’n 4ydd cynnig

Ydych chi o’r farn y dylen ni gael ‘pŵer cyfarwyddo’ ynglŷn â gosod dyddiadau tymor, nid dim ond ar adegau pan nad oes modd cytuno ar ddyddiadau tymor, ond hefyd ar adegau pan mae angen dyddiadau tymor gwahanol?

✓ Ydw ✗ Nac ydw ? Ddim yn gwybod

Oes yna unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud?

### 6. Ynglŷn â’n 5ed cynnig

Ydych chi o’r farn y dylai Gweinidogion Cymru gael y grym i lunio rheoliadau i bennu sut i fynd ati i ymgynghori ynglŷn â’r dyddiadau tymor sy’n cael eu gosod?

✓ Ydw ✗ Nac ydw ? Ddim yn gwybod

Oes yna unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud?



**7. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni'n ystyried sut gallai ein cynlluniau effeithio ar:**

- anabledd
- hil
- rhywedd ac ailbennu rhywedd
- oedran
- crefydd a chredo
- cyfeiriadedd rhywiol
- hawliau dynol.

Oes yna unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud?

**8. Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud wrthon ni am ein cynlluniau?**

© Hawlfraint y Goron Medi 2012
WG16043




